

PWYLLGOR: **BWRDD PENSIWN**
DYDDIAD: **3 MAWRTH 2020**
TEITL: **CYNHADLEDD LLYWODRAETHU'R CPLIL, 23–24 IONAWR 2020 - EFROG**
PWRPAS: **ER GWYBODAETH**
AWDUR: **SHARON WARNES**

1. CEFNDIR

- 1.1 Ar y 23^{ain} a'r 24^{ain} o Ionawr 2020, cynhaliwyd yr 16^{eg} Cynhadledd Llywodraethu Blynyddol y CPLIL yn Efrog. Mae'r ddogfen atodol, a baratowyd gan Hymans Robertson, yn crynhoi'r prif faterion a gyflwynwyd gan y siaradwyr gwadd yn y gynhadledd.
- 1.2 Mynychodd y Cynghorydd John Brynmor Hughes a'r Cynghorydd Aled Wyn Jones ar ran y Pwyllgor Pensiynau, a Sharon Warnes ar ran y Bwrdd Pensiwn.

2. MATERION I'W HYSTYRIED

2.1 Scheme Advisory Board (SAB)

- Fel rhan o'r prosiect llywodraethu da bydd Rhan 3 o'r prosiect nawr yn canolbwyntio ar sefydlu dangosyddion perfformiad (KPIs)
- Fel rhan o'r cod tryloywder (code of transparency), bydd canllawiau statudol newydd ar y ffordd gyda system ar lein.
- Nodwyd bod y symudiad tuag at brisiad 4 blynedd oddi ar y bwrdd ar hyn o bryd.
- Bydd holiadur y Bwrdd allan canol Chwefror.

2.2 Sicrhau Cydymffurfiaeth

- Nodwyd y pwysigrwydd bod y Bwrdd Pensiwn lleol yn cael gwybod am "data breaches" a bod rhain yn cael sylw er mwyn dysgu gwersi ac yn ymddangos yn y Cynllun Gweithredu.

2.3 Safbwynt Aelod o'r Cynllun

- Mae Unsain yn parhau o'r farn, yn genedlaethol, bod y pwls yn dweud wrth y cronfeydd beth ddylai ddigwydd a bod costau yn parhau yn uchel! Fel y nodwyd uchod, soniwyd eto am y cod tryloywder a synhwyrwyd bydd y SAB yn edrych llawer mwy manwl ar hyn.

2.4 **Prif Anerchiad: Yr Arglwydd Hutton**

- Prif neges Yr Arglwydd Hutton oedd bod rhy ychydig o bobl yn arbed arian ar gyfer y dyfodol a'i fod yn teimlo bod angen "Minister for Savings".
- Mae Bwrdd Pensiwn Gwynedd eisoes wedi trafod hyn, a'r ffaith mai'r rhai ifanc yng Ngwynedd sydd unai yn tynnu allan o'r Gronfa Bensiwn neu ddim yn rhoi digon i mewn. Oes angen i'r Bwrdd ystyried sut i gael mwy i fuddsoddi?

2.5 **Rheoleiddio'r Diwygiadau (TPR - The Pensions Regulator)**

- Mae angen trefniadau cadarn ar gyfer adnabod, asesu ac adrodd ar dor-cyfraith.
- Mae angen cael polisi gwrthdaro buddiannau, a threfnu i asesu'r gofrestr risg yn aml.
- Mae angen sicrhau bod trefniadau (SLA) digon cadarn gyda chyrrff eraill mewn perthynas â chasglu a chadw gwybodaeth.
- Nodwyd bod gan TPR ganllawiau ar 'scams' mewn trosglwyddiadau pensiwn.

2.6 **Diweddariad Cyfreithiol**

- Nodwyd bydd y Ddeddf Pensiwn 2020 allan yn Ebrill neu Hydref. Bydd y Ddeddf yma yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar sicrhau diwydrwydd dyladwy (due diligence), e.e. dangos tystiolaeth, fel slip cyflog, pan mae person yn trosglwyddo allan neu i mewn.
- Gyda buddsoddiadau, nodwyd y bydd gofynion yn dod ym Mehefin gyda chanllawiau gan TPR. Awgrymwyd y bydd gofyn cyfreithiol i osod amcanion ar gyfer rheolwyr buddsoddi.
- Bydd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) canllawiau ar fuddsoddiadau gyda'r Llywodraeth yn ymgynghori yn y dyfodol agos. Awgrymwyd y bydd posib, ble mae pryderon, i'r Ysgrifennydd Gwladol ddod i mewn i ddweud sut dylid buddsoddi arian.

Atodiad

Papur Hymans Robertson – 'Conference Highlights'